

Ysgol Cybi

Polisi Plant Mewn Gofal

Tymor y Gwanwyn 2022

Dyddiad wedi ei fabwysiadu gan y Corff Llywodraethu <i>(bydd hefyd angen cofnodi hyn yng nghofnodion y cyfarfod lle cafodd ei dderbyn a'i fabwysiadu)</i>	14/2/22
Cadeirydd y Llywodraethwyr (llofnod)	
Pennaeth (llofnod)	
Dyddiad adolygu <i>(3 mlynedd o fabwysiadu, os nad yw'r templed wedi ei ddiweddarau gan yr ALI)</i>	Tymor y Gwanwyn 2025

Polisi Plant Mewn Gofal

1. Y Nod

Hyrwyddo a chefnogi cyflawniad addysgol a lles disgyblion sy'n derbyn gofal.

Mae'r ysgol wedi adnabod Dirprwy Bennaeth Ysgol Cybi i fod gyda chyfrifoldeb dynodedig ar gyfer Plant Mewn Gofal.

2. Rôl yr Athro Dynodedig ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal

- Athro uwch, gyda chysylltiadau i Dîm Arweinyddiaeth yr ysgol. Mae angen i'r Athro Dynodedig Plant Mewn Gofal gael llais a all ddylanwadu ac arwain gwneud penderfyniadau o fewn yr ysgol. Efallai y bydd angen i'r Athro Dynodedig fynychu cyfarfodydd, weithiau ar fyr rybudd, yn ystod y diwrnod ysgol, ac efallai y bydd angen rhywfaint o hyblygrwydd.
- Gweithio ar y cyd â'r Swyddog Cyswllt Addysg, Pennaeth a'r Llywodraethwr Plant Mewn Gofal i sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r anawsterau ac anfanteision addysgol a wynebir gan blant sy'n derbyn gofal a deall cymhlethdod achosion unigol (lle bo'n briodol), a'r angen am systemau cefnogaeth cadarnhaol ar gyfer yr ysgol gyfan i helpu i'w goresgyn.
- Hyrwyddo cyfranogiad plant sy'n derbyn gofal mewn gweithgareddau a chyfleoedd allgyrsiol, hybu darllen gartref a chefnogaeth gwaith cartref.
- Datblygu systemau ar gyfer cyfathrebu effeithiol gyda gofalwyr, rhieni, gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, Swyddog Cyswllt Addysg ac unrhyw asiantaethau a rhwydweithiau cefnogi perthnasol eraill.
- Monitro cynnydd addysgol pob plentyn sy'n derbyn gofal er mwyn ymyrryd yn gyflym ar lefel unigol neu'r ysgol, os bydd angen cymorth ychwanegol.
- Gweithio ar y cyd â'r Swyddog Cyswllt Addysg i sicrhau bod gan yr holl ddisgyblion sy'n derbyn gofal Gynlluniau Addysg Personol, sy'n ofyniad statudol i bob plentyn sy'n derbyn gofal. Mae angen cwblhau Cynlluniau Addysg Personol o fewn yr amserlen (20 diwrnod ysgol o ddechrau ysgol newydd neu fod yn blentyn sy'n derbyn gofal). Mae angen i'r CAPau fod yn ystyrlon, yn fanwl ac yn gywir.
- Mynychu, trefnu i gynrychiolydd, neu ddarparu diweddariadau ac adroddiadau addysgol ar gyfer adolygiadau, CAPau a chyfarfodydd. Sicrhau trosglwyddiad cyflym o wybodaeth a dogfennau (yn ddiogel) rhwng asiantaethau.
- Cefnogi disgyblion i rannu eu barn a gwneud cyfraniad at eu Cynllun Addysg Personol. Sicrhau bod llais y disgybl yn cael ei glywed a'i gynrychioli.
- Gweithio'n agos a chysylltu â'r llywodraethwr â chyfrifoldeb am Blant Mewn Gofal.
- Bod yn ymwybodol o statws cyfreithiol y plentyn, trefniadau cyswllt, y rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant.

- Bod yn ymwybodol, lle y bo'n bosibl o'r disgyblion hynny sydd ar Orchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig (GGA) neu wedi eu mabwysiadu ac wedi bod yn blant oedd yn derbyn gofal yn flaenorol.
- Anfon unrhyw lythyrau/adroddiad addysgol i'r rhiant corfforaethol – drwy y Swyddog Cyswllt Addysg Plant Mewn Gofal.

2.1 **Staff yr Ysgol Ehangach**

- Athro Dynodedig Plant Mewn Gofal i ddyrannu aelod allweddol o staff y gall y person ifanc siarad â nhw neu gyfarfod yn rheolaidd, gyda neu heb rybudd ymlaen llaw lle bo hynny'n bosibl. Sicrhau bod y person ifanc yn cytuno â'r gweithiwr penodedig.
- Sicrhau bod holl staff yr ysgol sydd mewn cysylltiad â phlant sy'n derbyn gofal yn cael y maint priodol o wybodaeth am amgylchiadau'r person ifanc ac o leiaf yn ymwybodol eu bod yn derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol.
- Yn absenoldeb yr athro/athrawon dosbarth arferol, dylai rhywfaint o wybodaeth am amgylchiadau'r plentyn gael ei rhannu gyda'r athro cyflenwi. Dylai'r Pennaeth neu'r athro dynodedig benderfynu faint sy'n cael ei rannu.

1.2 **Hyfforddiant**

Bydd yr ysgol / Person Dynodedig Plant Mewn Gofal yn:

- Sicrhau bod holl staff yr ysgol yn cael y cyfleoedd hyfforddi priodol er mwyn cefnogi plant sy'n derbyn gofal yn llawn o fewn yr ysgol.
- Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o weithdrefnau Gofal Cymdeithasol/Addysg a chadw i fyny â hyfforddiant perthnasol a mynychu cyfleoedd hyfforddi a ddarperir e.e. Fforwm Plant Mewn Gofal.
- Rhaeadru gwybodaeth a hyfforddiant i staff yr ysgol fel y bo'n briodol.
- Meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'r trefniadau ariannu Plant Mewn Gofal/Grant Amddifadedd Disgyblion ar lefel ysgol leol, rhanbarthol ac ar lefel disgybl unigol. Bod yn ymwybodol o'r gweithdrefnau ac effaith y cyllid ar ddisgyblion unigol sy'n derbyn gofal.
- Cofnodi diweddariad perthnasol ar y Cynllun Addysg Personol.

2. **Rôl y Llywodraethwr Plant Mewn Gofal**

Mae'r ysgol wedi adnabod Cadeirydd Y Corff Llywodraethol i fod gyda chyfrifoldeb dynodedig ar gyfer Plant Mewn Gofal.

Bydd yr aelod yn:

- Gweithio'n agos gyda'r athro Dynodedig Plant Mewn Gofal a'r Swyddog Cyswllt Addysg a chael dealltwriaeth dda o'r anawsterau ac anfanteision addysgol a wynebier gan blant sy'n derbyn gofal a'r hyn mae'r ysgol yn ei wneud i gefnogi plant sy'n derbyn gofal.

- Bydd y Llywodraethwr Plant Mewn Gofal yn adrodd i'r Corff Llywodraethu yn flynyddol, gan gynnwys gwybodaeth am:
 - Nifer y Plant Mewn Gofal yn yr ysgol.
 - Presenoldeb Plant Mewn Gofal.
 - Cymhariaeth o sgôr/lefelau prawf.
 - Lefelau cyfnod penodol / gwaharddiadau parhaol o Blant Mewn Gofal.
- Bydd Llywodraethwr Plant Mewn Gofal, yn gweithredu fel cyfaill beirniadol, yn cwestiynu a chefnogi'r ysgol wrth hyrwyddo cyflawniad addysgol a lles plant sy'n derbyn gofal.
- Bydd Llywodraethwr Plant Mewn Gofal yn gwirio bod polisïau a gweithdrefnau'r ysgol yn sicrhau bod disgyblion sy'n derbyn gofal yn cael mynediad cyfartal ac yn cael cefnogaeth addysgol ychwanegol os oes angen a mynediad llawn at weithgareddau allgyrsiol.
- Bydd Llywodraethwr Plant Mewn Gofal yn rhannu a rhaeadru gwybodaeth ynghylch plant sy'n derbyn gofal i lywodraethwyr eraill ac adrodd i Gadeirydd y Llywodraethwyr.